Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

**Princess Way**
**Bracla**
**CF31 2LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025**

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 370 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 283 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 43 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 13.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 03/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth ac ethos cadarn ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar gynnig mynediad i bawb at brofiadau dysgu ysgogol a diddorol sy'n hybu disgyblion i lwyddo hyd eithaf eu gallu. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac mae staff yn gweithio'n gydwybodol i ddatblygu darpariaeth sy'n sicrhau'r lles a'r profiadau gorau posibl ar gyfer bob disgybl.

Mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio da â disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion yn briodol. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu defnyddiol sy'n hybu'r dysgu'n bwrpasol. Mae athrawon yn fodelau rôl ieithyddol cadarn ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi i adeiladu'n fwriadus ar ddysgu blaenorol y disgyblion.

Mae'r ystod o brofiadau dysgu symbylus a diddorol sy'n cael eu darparu gan athrawon yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn mwynhau eu profiadau ac yn canolbwyntio ar eu tasgau'n dda am gyfnodau estynedig. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n ystyried y cyd-destun lleol yn briodol ac sy'n cefnogi llawer o'r disgyblion i wneud cynnydd addas yn eu medrau dros amser. Nid yw gweithgareddau, ar adegau, yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigon rheolaidd ac, ar y cyfan, nid yw adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn ymateb yn bwrpasol i'r meysydd hyn i'w gwella. Mae'r llywodraethwyr yn cynnig cefnogaeth gadarn i'r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o'u cyfrifoldebau.

Un o gryfderon nodedig yr ysgol yw'r cefnogaeth y maent yn ei chynnig i deuluoedd sydd yn profi effaith tlodi. Mae staff yn sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael, lle bo'n briodol ac maent yn ymdrin yn sensitif â theuluoedd sydd angen cymorth â chostau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol, fel gwisg ysgol ac ymweliadau. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr holl ystod o brofiadau heb eithriad ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad fod yr ysgol yn un teulu mawr clòs.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

A2. Sicrhau bod gweithgareddau dysgu’n herio’r disgyblion mwy abl yn gyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn gymuned groesawgar, hwyliog a gofalgar lle rhoddir blaenoriaeth amlwg i hybu lles disgyblion a sicrhau cyfle i bawb. Mae arweinwyr yn gweithio’n ddiwyd i gynnal a datblygu’r ymdeimlad fod yr ysgol yn un teulu mawr hapus a chytûn ble mae pawb yn annog a chefnogi ei gilydd. Maent wedi sefydlu diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y gofal a gânt ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol wrth eu gwaith a’u chwarae.

Mae’r pennaeth yn arweinydd cadarn ac angerddol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o’i hun ac eraill ac mae hi’n cyfathrebu’r disgwyliadau hyn yn bwrpasol i staff, rhieni a disgyblion. Mae ganddi weledigaeth glir sy’n seiliedig ar sicrhau’r lles a phrofiadau gorau posibl ar gyfer bob disgybl o fewn amgylchedd cynhwysol sy’n parchu hawliau pawb. Mae’r pennaeth yn rhoi bri ar sicrhau bod yr ysgol yn darparu cefnogaeth gadarn i deuluoedd sy’n profi effaith tlodi neu’r rhai o aelwydydd incwm isel.

CIPLUN – Sicrhau mynediad at brofiadau addysgol i deuluoedd sy’n profi effaith tlodi

Mae arweinwyr wedi sefydlu’r Tîm Lles Emosiynol a Theuluol sy’n cynnig cefnogaeth bwrpasol a sensitif i deuluoedd. Mae’r staff wedi meithrin perthnasoedd clòs â rhieni a’r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion teuluoedd yn dda. Maent yn cynnig darpariaeth wedi ei theilwra gan gynnwys cefnogaeth emosiynol a threfnu mynediad at wasanaethau arbenigol fel cyngor ar dai a chyllidebu. Mae’r tîm yn trefnu gwasanaeth casglu a chyfnewid sy’n cynnig gwisg ysgol am ddim i deuluoedd sydd ei hangen, gan gynnwys y disgyblion sy’n trosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Defnyddir arian grantiau’n ddoeth ar gyfer sicrhau nad yw cost yn rhwystro disgyblion rhag mynychu ymweliadau addysgol oddi ar y safle.

Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar a chydwybodol. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda ac maent yn gweithio’n ddiwyd er budd y disgyblion. Mae cyfrifoldebauarwain wedi eu dyrannu’n bwrpasol ymysg staff ac mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu’n briodol i waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ac, felly, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Maent yn defnyddio’r wybodaeth i addasu’r ddarpariaeth a mynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella yn amserol, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol. Mae’r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn ac mae targedau datblygu staff yn cysylltu’n briodol â'u hanghenion datblygu personol a blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr yn cefnogi staff i wella agweddau pwysig o’r ddarpariaeth sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn eiriolwyr cadarn dros yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn briodol.

Mae staff wedi sefydlu perthynas weithio bwrpasol â disgyblion sy’n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn diwallu eu hanghenion lles ac emosiynol yn briodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt broblem neu bryder. Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn ymdrin â’i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn dda iawn ac maent yn mwynhau eu profiad yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio’n llwyddiannus ar eu tasgau am gyfnodau estynedig ac yn cyfranogi’n frwdfrydig. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy’n cefnogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu heffeithio gan dlodi a’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd priodol yn eu medrau.

Mae disgyblion yn cychwyn dylanwadu ar yr hyn y byddent yn hoffi ei ddysgu o fewn eu themâu ac mae cwricwlwm yr ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i syniadau disgyblion ynghyd â'r cyd-destun lleol. At ei gilydd, mae'r profiadau dysgu'n diwallu anghenion llawer o'r disgyblion yn briodol. Er hyn, nid yw gweithgareddau'n herio disgyblion mwy abl yn ddigon cyson.

Mae staff yn fodelau rôl ieithyddol cadarn. Maent yn modelu geirfa a chystrawen yn raenus ac yn annog cywirdeb ieithyddol gan ddisgyblion. Un sgil effaith hyn yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n aeddfed a chlir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn defnyddio geirfa pwnc berthnasol yn gywir, er enghraifft yn eu gwaith ffracsiynau. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau holi sy'n adalw dysgu blaenorol y disgyblion yn bwrpasol. Yn yr arferion gorau, mae holi treiddgar gan athrawon yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach ac i ymhelaethu ymhellach ar eu hatebion. Er, yn gyffredinol, nid yw adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r trefniadau'n galluogi staff i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach yn gynnar a darparu rhaglenni cefnogi sy'n diwallu anghenion penodol disgyblion yn dda. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol ac yn monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion yn ofalus. Mae bron bob disgybl sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn dros amser.

Darperir ystod ddefnyddiol o gyfleoedd i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig o waith yr ysgol a dylanwadu ar eu dysgu. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cyfrifoldebau hyn ac yn ymgymryd â'u rolau o ddifrif a gyda balchder. Mae gwaith y Cyngor Cymreictod, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg ymysg disgyblion ac wedi datblygu medrau pwysig fel cydweithio, cynllunio a dyfalbarhad.

Nodwedd effeithiol o waith yr ysgol yw'r cydweithio â rhieni ac ystod o asiantaethau allanol, gan gynnwys y gymuned ehangach. Mae'r sesiynau 'Ti a Fi' sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol, fel esiampl, yn cynnig cyfleoedd pwysig i rannu gwybodaeth am ddiddordebau ac anghenion disgyblion cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi staff i roi trefniadau amserol ar waith er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn briodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/04/2025